# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 19 Mai 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

**C10 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? (OAQ35133)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud cynnydd da. Hyd yn hyn, sefydlwyd 86 partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf sydd yn eu dyddiau cynnar ac mae eraill wrthi'n cael eu sefydlu.

Cynhaliodd Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, arolwg o'r rhaglen yn ddiweddar, a gwnaeth nifer o argymhellion ynglŷn â sut y gellid gwella sut y caiff y rhaglen ei darparu. Mae swyddogion yn gweithredu ar yr argymhellion.

Mae'r asesiad o'r rhaglen gan Cambridge Policy Consultants yn mynd rhagddo, a sefydlwyd grŵp llywio i'w oruchwylio.

### Effeithlonrwydd Ynni Cartref

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yng Nghymru? (OAQ35131)

**Edwina Hart:** Mae effeithlonrwydd ynni cartref yn elfen allweddol o agendâu cyfiawnder cymdeithasol a datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad. Enghraifft amlwg o hyn yw ein hymrwymiad o ran tlodi tanwydd. Drwy ein cytundebau polisi, yr ydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol, sydd â goblygiadau statudol eu hunain, yn ymrwymo i dargedau gwella effeithlonrwydd ynni cartref. Cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ganllawiau yn ddiweddar i helpu awdurdodau i ddatblygu polisïau ynni.

### Mesur Amddifadedd

**C12 Nick Bourne:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwella'r dulliau o fesur amddifadedd? (OAQ35219)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi gofyn I swyddogion ddiweddaru mynegai amlamddifadedd Cymru. Casglwyd y mynegai cyfredol yn 2000, gan ddefnyddio data 1998 gan mwyaf. Cesglir y mynegai diwygiedig dros weddill 2004-05, gan ddefnyddio data 2002 a 2003 gan mwyaf.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ35222) yn ôl.*

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**C14 Denise Idris-Jones:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau perthnasol eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghymunedau Cymru? (OAQ35121)

**Edwina Hart:** Mae Llywdraeth Cynulliad Cymru yn annog partneriaethau cryf i weithio ar draws Cymru i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig aml-asiantaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae partneriaethau diogelwch cymunedau yn arwain ar lefel leol ac mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid ar gyfer pob partneriaeth i sicrhau cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, a fydd yn caniatàu ymagwedd ar y cyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau. Mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn ymestyn yr ystod o fesurau ymarferol y gellir eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac hefyd yn cwmpasu'r sector dai a'r sector addysg.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**C15 Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau perthnasol eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghymunedau Cymru? (OAQ35195)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog partneriaethau cryf i weithio ar draws Cymru i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig aml-asiantaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae partneriaethau diogelwch cymunedau yn arwain ar lefel leol ac mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid ar gyfer pob un i sicrhau cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, a fydd yn caniatàu ymagwedd ar y cyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau. Mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn ymestyn yr ystod o fesurau ymarferol y gellir eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac hefyd yn cwmpasu'r sector dai a'r sector addysg.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Agenda Sgiliau Cymru

**C6 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl Busnesau Cymru o ran rhoi agenda sgiliau Cymru ar waith? (OAQ35162)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Cyfrifoldeb fy nghyd-Weinidog yn y Cabinet, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yw'r agenda sgiliau, ond gallaf ddweud wrthych fod busnes Cymreig yn gwbl ymrwymedig. Cynrychiolir cyflogwyr, drwy Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, yn y bartneriaeth dyfodol sgiliau Cymru. Mae Dysgu ac Addysgu Cymru yn sefydlu rhwydwaith sgiliau i fusnes yng Nghymru sy'n cynnwys cynghorau sgiliau sector o dan arweiniad y cyflogwr, ac mae fforwm sgiliau dyfodol Cymru wedi cael ei sefydlu i gynrychioli barn busnes ar faterion sgiliau.

## Mewnfuddsoddi

**C7 Nick Bourne:** A wnaiff ddatganiad ar rôl y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o ran hyrwyddo mewnfuddsoddi? (OAQ35199)

**Andrew Davies:** Awdurdod Datblygu Cymru sydd â'r prif gyfrifoldeb dros hyrwyddo Cymru fel lleoliad mewnfuddsoddi. Mae ei ymagwedd o bartneriaeth, drwy Tîm Cymru, wedi sicrhau bod Cymru'n cadw'i safle fel un o'r lleoliadau gorau am fewnfuddsoddi yn y Deyrnas Unedig.

## Gwasanaethau Band Eang

**C8 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran gwasanaethau band eang yng Nghymru? (OAQ35206)

**Andrew Davies:** Ar ddechrau rhaglen Band Eang Cymru, galluogwyd tua 30 cyfnewidfa, ac yr oedd gan 35 y cant yn unig o'r boblogaeth fynediad i fand eang. Ers Gorffennaf 2002, mae statws gwasanaethau band eang drwy Gymru wedi parhau i wella. Erbyn hyn, gall dros 132 o gyfnewidfeydd ymdrin â band eang, sydd yn golygu bod gan dros 76 y cant o'r boblogaeth fynediad i fand eang ar gyfer y fasfarchnad.

Yr wyf felly'n croesawu penderfyniad diweddar BT i alluogi'r holl gyfnewidfeydd hyfyw sydd yn weddill erbyn haf 2005, a fydd yn golygu y bydd Cymru'n agos at gael darpariaeth o'r band eang ar draws y wlad drwy ADSL.

## Ehangu'r Undeb Ewropeaidd

**C9 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y bydd ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn ei chael ar yr arian y bydd Cymru yn ei dderbyn gan yr UE? (OAQ35210)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r ehangiad o'r UE.

Yn sgîl ehangu'r UE, bydd angen adolygu faint o gyllid rhanbarthol a geir gan yr UE a dosbarthiad yr arian hwnnw. Nododd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion ynglŷn â hyn yn ei drydydd adroddiad cydlyniant. Cyhoeddir deddfwriaeth ddrafft yn yr haf, a disgwylir y bydd tua 12 i 18 mis o negodi ag aelod wladwriaethau cyn i'r sefyllfa cyllido derfynol ddod yn hysbys.

## Twristiaeth Gynaliadwy

**C10 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i hybu'r potensial ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn ne-orllewin Cymru? (OAQ35170)

**Andrew Davies:** Mae partneriaeth dwristiaeth ranbarthol y De-orllewin wedi comisiynu ymgynghorwyr i adolygu strategaeth twristiaeth ranbarthol gyfredol yr ardal. Mae i'r strategaeth ar hyn o bryd ddau gysyniad cyffredinol—rheolaeth integredig o safon a thwristiaeth gynaliadwy. Bydd yr adolygiad yn ceisio cryfhau agweddau ar y strategaeth.

## Y Gronfa Adfywio Lleol

**C11 Janet Ryder:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau gan awdurdodau lleol ynghylch y gronfa adfywio lleol? (OAQ35175)

**Andrew Davies:** Nac ydwyf.

### Hyrwyddo a Datblygu Busnesau

**C12 Mick Bates:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo a datblygu busnesau yng Nghymru? (OAQ35145)

**Andrew Davies:** Mae strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cymru'n Ennill', yn nodi ein polisïau a'n rhaglenni. Yn yr haf, cyhoeddaf yr ail adroddiad blynyddol ar gynnydd cadarnhaol Llywodraeth y Cynulliad a'n partneriaid.

### Lefelau Diweithdra ymysg Pobl Ifanc

**C13 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lefelau diweithdra ymysg pobl ifanc? (OAQ35160)

**Andrew Davies:** Yn ôl yr arolwg o'r llafurlu, yr oedd 201,000 o rai rhwng 16 a 24 oed, ar gyfartaledd, mewn gwaith yng Nghymru dros y flwyddyn hyd at Chwefror 2004. Yr oedd hyn yn gynnydd o 17,000 ar y flwyddyn flaenorol. Cyfartaledd graddfa gyflogaeth pobl rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru dros y flwyddyn hyd at Chwefror 2004 oedd 60.6 y cant, sef cynnydd o 3.8 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol. Yn Nwyrain Abertawe, yr oedd nifer y rhai dan 25 oed yn hawlio lwfans ceisio gwaith yn Ebrill 2004 12 y cant yn is na ffigur 1999.

### Ffigyrau GYC y Pen

**C14 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffigyrau gwerth ychwanegol crynswth y pen yng ngogledd Cymu? (OAQ35257) [W]

**Andrew Davies:** Cyhoeddwyd y ffigurau GYC diweddaraf ar gyfer is-ranbarthau Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Rhagfyr 2003, sy'n cyfeirio at 2001. Mae cyfuno ystadegau GYC ar gyfer ardaloedd NUTS3, sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a sir Ddinbych, a sir y Fflint a Wrecsam yn rhoi ffigur amcangyfrifedig ar gyfer GYC y pen yn y Gogledd o tua £10,900 yn 2001.

### Bryn Gelli, Pontardawe (A474)

**C15 Gwenda Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ynghylch diogelwch y modurwyr a'r cerddwyr sy'n defnyddio'r rhan o'r A474 a elwir yn Bryn Gelli, Pontardawe? (OAQ35155)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar y mater hwn. Fodd bynnag, ymwelodd y Dirprwy Weinidog, Brian Gibbons, â'r safle ar 15 Mai a gwn y bu gohebiaeth â'r cyngor ynglŷn â chyfraniad Llywodraeth y Cynulliad i gynllun Bryn Gelli yr A474 dan y cynllun grant cyfalaf tywydd garw.